# Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach

Nodau 2025



# Rhagair

Gan **Jonathan Simms,**
**Cadeirydd Pwyllgor Fferyllol Cymru**

*Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach (Ff:CCI*[1]*)* yw gweledigaeth 10 mlynedd y proffesiynau fferyllol sy'n dangos sut y bydd fferylliaeth yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant dinasyddion Cymru i'r eithaf.

Yn dilyn cyhoeddiad cychwynnol *y weledigaeth ar gyfer fferylliaeth* yn 2019, newidiodd y byd mewn ffyrdd a oedd yn anodd eu rhagweld cyn i bandemig Covid-19 ddechrau ym mis Mawrth 2020. Mae gwaith ymroddedig y proffesiwn yn erbyn cefndir o ansicrwydd ac ofn wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig. Er gwaethaf y pandemig, mae llawer iawn wedi'i gyflawni o ran sicrhau newid i ofal fferyllol yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i'r weledigaeth. Rydym nawr yn cychwyn ar y cam pwysig nesaf ar gyfer Ff:CCI a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gofal i gleifion wrth i'r gwasanaeth iechyd geisio gwella o effaith y pandemig.

Yn unol â *Chymru Iachach*[2], gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae y weledigaeth hyd yma, wedi amlinellu nodau ac egwyddorion hirdymor (nodau 2030) a blociau adeiladu tymor byr (nodau 2022) i drawsnewid rôl a chyfraniad timau fferylliaeth ledled Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru o blaid creu Bwrdd Rhaglen Gyflawni Ff: CCI, sy'n cynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol rheng flaen, i hwyluso a chydgysylltu'r gwaith o roi'r weledigaeth ar waith wrth gyflawni'r nodau a amlinellwyd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu nodau 2025 sy'n gamau pellach yn ein huchelgeisiau i gyrraedd y dyheadau ar gyfer 2030 a fynegir yn y weledigaeth. Yn yr un modd â'r weledigaeth gyffredinol, mae'r nodau hyn wedi'u datblygu drwy gydweithio â channoedd o weithwyr fferyllol proffesiynol ledled Cymru, aelodau ehangach o'r tîm fferylliaeth, proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol eraill a grwpiau cynrychioli cleifion.

Mae Ff: CCI yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol: Gwella Profiad y Claf, Gofal Fferyllol Di-dor, Harneisio Arloesedd a Thechnoleg, a Datblygu'r Gweithlu Fferylliaeth. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal fferyllol arloesol o ansawdd uchel yn y lleoliad mwyaf priodol.

Mae nodau 2025 yn parhau gyda'r nod cyffredinol o chwalu'r ffiniau rhwng lleoliadau gofal er mwyn sicrhau bod cleifion yn elwa ar arbenigedd y tîm fferylliaeth lle bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnynt. Y nod yw y bydd cleifion yn profi gofal di-dor wrth iddynt symud rhwng lleoliadau gofal a bydd timau fferylliaeth yn arwain ar agweddau meddyginiaethau ar bontio mewn gofal.

Bydd fferylliaeth yn cynnig llwybrau gyrfa mwy deinamig, blaengar ac amrywiol; mae llawer o weithwyr fferyllol proffesiynol bellach yn chwilio am yrfa bortffolio, gan weithio ar draws gwahanol leoliadau. Erbyn 2030, bydd rôl gyffredinol graidd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cael ei datblygu i alluogi'r gwaith portffolio hyblyg hwn.

Mae'r ddogfen nod hon ar gyfer 2025 yn dangos dull cydweithredol, arloesol a blaengar o ddarparu gofal fferyllol, a thrwy hynny byddwn yn sicrhau bod timau fferylliaeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth iechyd a phobl Cymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1. www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Policy/Pharmacy%20Vision%20English.pdf?ver=2019-05-21-152234-477
2. llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

# 1 Gwella Profiad y Claf

Mae rhoi cleifion wrth galon eu gofal wedi parhau i fod yn ganolbwynt allweddol o Ff:CCI ers ei gyhoeddi yn 2019. Mae'r uchelgais i lunio gofal fferyllol drwy harneisio sgiliau'r tîm fferylliaeth, ehangu cydweithio proffesiynol a chynyddu effeithlonrwydd o ran mynediad cleifion at wasanaethau fferyllol ar draws pob lleoliad yn parhau i fod yn gydrannau craidd gweledigaeth fferylliaeth. Lapio gwasanaethau'n ddi-dor o amgylch cleifion a diwallu anghenion cleifion yn effeithiol yn y lleoliad mwyaf priodol yw bwriad gwasanaethau fferyllol yng Nghymru.

Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r GIG yn sgil pandemig Covid-19, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gweithredu'r nodau Ff:CCI a osodwyd ar gyfer 2022.

- Mae newidiadau i Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol[3], a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, wedi gosod sylfeini pwysig ar gyfer cynyddu nifer y gwasanaethau clinigol sydd ar gael i gleifion yn eu hardaloedd. Bydd niferoedd cynyddol o Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol yn parhau i fod ar gael mewn fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau ychwanegol sy'n adeiladu ar y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS) sydd eisoes wedi hen sefydlu ac sy'n cynnig cymorth ar gyfer ystod ehangach o gyflyrau iechyd.

Bydd defnyddio'r sgiliau a'r niferoedd cynyddol o Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol o fudd i gleifion mewn ysbytai, gan gyfrannu at gymysgedd sgiliau'r tîm amlddisgyblaethol ehangach a chynnig arbenigedd mewn meddyginiaethau. Mae cynlluniau ar gyfer hyfforddi carfan newydd o Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol wedi cael eu rhoi ar waith gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac mae £4.2 miliwn o gyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Fel rhan o gynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf, bydd cleifion yn elwa ar ehangu sylweddol mewn gwasanaethau fferyllol gan adeiladu ar ddatblygiadau ers cyhoeddi Ff:CCI. Bydd cymysgedd sgiliau timau fferylliaeth yn cael ei drawsnewid, gan ganiatáu i dechnegwyr fferyllol ymgymryd â mwy o rolau sy'n ymwneud â chleifion, cefnogi iechyd cyhoeddus ehangach, cynghori ar hunanofal a chyfrannu at sgyrsiau byw'n iach a'r agenda atal salwch bwysig.

Bydd adolygiadau o feddyginiaethau ar gael drwy fferyllwyr sydd wedi'u lleoli mewn practisau meddygon teulu, bydd cyfeiriadau at wasanaethau eraill ar gael a bydd arloesiadau digidol yn cefnogi cleifion i archebu eu meddyginiaethau, yn ogystal â deall mwy am ba wasanaethau sydd ar gael. Bydd gan bob aelod o'r tîm fferylliaeth gyfrifoldebau i gefnogi cleifion o ran llythrennedd digidol ac iechyd yn ogystal â gwneud penderfyniadau ar y cyd â chleifion.

Erbyn diwedd 2025, bydd cleifion yn elwa ar fwy o gefnogaeth gan y tîm fferylliaeth mewn meysydd blaenoriaeth clinigol allweddol. Bydd safonau fferylliaeth newydd i gefnogi gofal lliniarol a diwedd oes yn eu lle ac yn cael eu cefnogi'n weithredol gan y tîm fferylliaeth ledled Cymru. Bydd rhwydwaith o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hefyd yn cael ei ddatblygu ledled Cymru, gan roi'r offer, y ddealltwriaeth a'r hyder i'r tîm fferylliaeth ddelio â phroblemau iechyd meddwl a llesiant.

Bydd cleifion yn profi proses fwy di-dor wrth iddynt drosglwyddo rhwng lleoliadau gofal iechyd erbyn diwedd 2025. Bydd y broses ryddhau o'r ysbyty yn sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel ac yn effeithlon rhwng timau fferylliaeth ysbytai a fferyllfeydd cymunedol. Cymerir camau i adeiladu ar y Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau llwyddiannus gyda gwell cysylltedd a bydd prosesau rhwng yr ysbyty a'r gymuned yn cael eu rhoi ar waith wrth ryddhau cleifion i leihau'r angen i ddosbarthu meddyginiaethau arferol, sefydledig y claf.

Bydd Ff:CCI yn parhau i gael ei ddatblygu drwy ganolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd, gan sicrhau cydweithio effeithiol gyda sefydliadau y tu hwnt i fferylliaeth sy'n effeithio ar iechyd a llesiant. Bydd camau i chwalu rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol yn cael eu cymryd ar draws y tîm fferylliaeth, gan sicrhau bod cleifion yn profi cynhwysiant yn ystod eu rhyngweithio â gwasanaethau fferyllol, lle bynnag y cânt eu cyrchu yng Nghymru. Bydd yr ymrwymiad i uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau y gall fferylliaeth chwarae ei rhan i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd y cyhoedd, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/dyfodol-fferylliaeth-gymunedol-yng-nghymru-presgripsiwn-newydd_0.pdf



# Nod 1

Cefnogi timau fferylliaeth i wneud i bob cyswllt â chlaf gyfrif

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **1.1**<br>**Cydweithio ar ymgyrch i'r cyhoedd i helpu dinasyddion Cymru i ddeall rolau esblygol timau fferylliaeth a'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob lleoliad gofal.** | • Ymgyrch i'r cyhoedd wedi amlygu gwasanaethau fferyllol ar draws pob lleoliad, wedi'i chyflwyno a'i gwerthuso. |
| **1.2**<br>**Adeiladu ar y gwasanaethau sydd ar gael trwy fferylliaeth gan sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r gwasanaethau y gallant eu cyrchu.** | • Mesur a gwerthuso'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau fferylliaeth gymunedol er mwyn sefydlu a thyfu gwasanaethau'n gyson ledled Cymru.<br>• Cynnydd yn yr adolygiadau o feddyginiaethau a gynhelir gan fferyllwyr o fewn practisau meddygon teulu ledled Cymru.<br>• Cyfeirio gwasanaethau fferylliaeth drwy Ap y GIG a gwerthuso'r nifer sy'n manteisio arnynt.<br>• Rhannu arfer gorau ar draws Clystyrau Gofal Sylfaenol ledled Cymru. |
| **1.3**<br>**Grymuso Technegwyr Fferylliaeth i wneud i bob cyswllt claf gyfrif gan gynnwys cymorth ar hunanofal a byw'n iach.** | • Nifer y gwasanaethau sydd ar gael ac a ddarperir gan dechnegwyr fferyllol trwy'r platfform Dewis Fferyllfa e.e. gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR). |
| **1.4**<br>**Tyfu a hyrwyddo rôl fferylliaeth gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan amlygu'r cyfleoedd i'r cyhoedd gael cyngor drwy'r GIG111 er enghraifft.** | • Cynnwys fferylliaeth wrth ddatblygu modelau gweithlu gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>• Nifer yr ymgysylltiadau cleifion â fferyllwyr sy'n gweithio o fewn GIG111.<br>• Cynnydd yn nifer aelodau'r tîm fferylliaeth sy'n cefnogi Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a Hybiau Gofal Sylfaenol Brys, gan gyfrannu at ddarparu Gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf: Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng[4]. |

4. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-09/chwe-nod-ar-gyfer-gofal-brys-a-gofal-mewn-argyfwng.pdf

# Nod 2

**Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau gwasanaeth gofal iechyd cynaliadwy i ddinasyddion heddiw yn ogystal ag ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **2.1**<br>**Cynnwys timau fferylliaeth mewn mentrau cenedlaethol a lleol i sicrhau bod gwasanaethau mwy amgylcheddol gynaliadwy yn cael eu darparu ledled Cymru.** | • Timau gofal eilaidd yn gweithio i leihau effaith nwyon anesthetig yn eu hysbytai neu dimau sy'n ymgysylltu â mentrau *Iechyd Gwyrdd neu Iechyd Cyfunol.*<br>• Gwerthuso sut mae timau fferylliaeth wedi gwneud newidiadau gweithredol i'w harferion i fod yn fwy amgylcheddol gyfrifol e.e. cofrestru gyda *Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru Gyfan.* |
| **2.2**<br>**Cefnogi llythrennedd iechyd a llythrennedd iechyd digidol trwy ddatblygu cyfres o adnoddau i roi'r sgiliau a'r hyder i'r tîm fferylliaeth i gefnogi unigolion i ddeall mwy am eu meddyginiaethau, eu hiechyd a'u llesiant.** | • Mae timau fferylliaeth wedi'u cynnwys yn y broses o gyflwyno'r fframwaith gallu digidol ar gyfer y gweithlu gofal iechyd.<br>• Mae gan aelodau priodol o'r tîm fferylliaeth fynediad at hyfforddiant llythrennedd iechyd i gefnogi cleifion ac mae'n ymgymryd ag ef.<br>• Mae timau fferylliaeth yn cyfeirio cleifion yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at offer perthnasol gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen a digidol pan fyddant ar gael, gan leihau'r defnydd o gopïau papur i helpu i leihau ein heffaith amgylcheddol. |
| **2.3**<br>**Gwneud timau fferylliaeth yn gynhwysol, cynyddu dealltwriaeth o amrywiaeth a rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i bob tîm fferyllol i oresgyn rhwystrau ieithyddol a diwylliannol.** | • Ymrwymiad gan dimau fferylliaeth i ymgyrchoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) gan gynnwys Ymgyrch Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol Fferylliaeth AaGIC.<br>• Mynediad at, a defnydd o fodiwl dysgu Cymraeg lefel cwrteisi sylfaenol gan y proffesiwn fferylliaeth.<br>• Cynnydd yn ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau cyfieithu a gomisiynir gan y GIG h.y. Llinell Iaith / Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru gan dimau fferylliaeth.<br>• Defnyddio adnoddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) ac aelodaeth o Grŵp Gweithredu mewn Perthyn, Diwylliant ac Amrywiaeth (ABCD) RPS. |

# Nod 3

Gwella profiad cleifion mewn meysydd blaenoriaeth clinigol cenedlaethol, gan sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn canolbwyntio ar wella canlyniadau

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
| --- | --- |
| **3.1**<br>**Sefydlu a gweithredu safonau proffesiynol fferyllol mewn gofal lliniarol a diwedd oes er mwyn darparu dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael ei yrru gan ansawdd at ofal diwedd oes a gofal profedigaeth i gleifion a gofalwyr.** | • Pob fferyllfa gymunedol yn cychwyn cymhwyso safonau proffesiynol cenedlaethol mewn gofal lliniarol a diwedd oes i'w practis.<br>• Bydd arweinydd fferylliaeth gofal lliniarol yn ei swydd ym mhob ardal Bwrdd Iechyd gyda chefnogaeth trefniadau cydweithio sy'n galluogi darparu gofal cyson o ansawdd uchel, gan ddefnyddio arbenigedd a chefnogaeth ar draws ffiniau byrddau iechyd a rhanbarthol. |
| **3.2**<br>**Creu rhwydwaith o Swyddogion Cymorth Cyntaf iechyd meddwl ar draws Cymru ac yn rhoi'r offer, y ddealltwriaeth a'r hyder i'r tîm fferylliaeth i ddelio â phroblemau iechyd meddwl a llesiant.** | • 50% o aelodau tîm fferylliaeth ag ymwybyddiaeth gyffredinol o gymorth cyntaf iechyd meddwl trwy gwblhau hyfforddiant lefel 1 AaGIC.<br>• Mae gan bob tîm fferylliaeth o leiaf un aelod o'r tîm sydd wedi cael cymorth i ddilyn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl uwch trwy gwblhau hyfforddiant lefel 2 AaGIC.<br>• Mae cymorth llesiant ar gael am ddim i bob aelod o'r tîm fferylliaeth, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru. |
| **3.3**<br>**Integreiddio'r tîm fferylliaeth i lwybrau clinigol ar gyfer HIV i gefnogi unigolion ym mhob lleoliad, gan gynnwys ffocws ar atal.** | • Arweinydd HIV/Feirws a Gludir yn y Gwaed (BBV) ym mhob ardal bwrdd iechyd, gan weithio ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.<br>• Cyflwyno Argaeledd Proffylacsis Cyn-gysylltiad (PrEP) i'w gomisiynu drwy fferyllfeydd cymunedol.<br>• Cefnogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar HIV. |

# Nod 4

Cryfhau ymarfer ymchwil a gwella ansawdd pob gweithiwr fferyllol proffesiynol, gan sicrhau ffocws ar ganlyniadau cleifion

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
| --- | --- |
| **4.1**<br>Adnewyddu cynllun strategol Ymchwil Fferylliaeth Cymru i ddarparu fframwaith ar gyfer gwelliant sylweddol mewn ymchwil er budd pobl Cymru. | • Ymchwil Fferylliaeth Cymru sy'n arwain y gwerthusiad o'r cynllun gweithredu strategol pum mlynedd ar gyfer ymchwil mewn fferylliaeth ac yn llunio ymchwil blaengar a chynllun gwella ansawdd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yng Nghymru. |
| **4.2**<br>Annog gweithwyr fferyllol proffesiynol i gamu i mewn i ymchwil sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau cleifion fel rhan o arfer arferol a gwella cyfraniad ymchwil practis i arloesi gwasanaethau. | • 100% o weithwyr fferyllol proffesiynol wedi cwblhau hyfforddiant Sylfaen Gwella Ansawdd e.e. modiwl e-ddysgu AaGIC neu gyfwerth.<br>• 20% o'r gweithwyr Fferylliaeth proffesiynol yng Nghymru wedi ymgymryd â hyfforddiant ymchwil uwch e.e. pecyn ymchwil NIHR RPS, modiwl ymchwil dan arweiniad prifysgol.<br>• Ymgysylltu'r proffesiwn fferylliaeth â Chyfadran newydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. |
| **4.3**<br>Cynyddu cydweithrediad ymchwil rhwng y byd academaidd a gweithwyr fferyllol proffesiynol rheng flaen. | • 20% o brosiectau israddedig fferylliaeth glinigol ag ymglymiad ymarferwyr.<br>• Sefydlu fforwm i hwyluso cydweithrediadau ymchwil academaidd ac ymarferwyr cenedlaethol. |
| **4.4**<br>Ymgorffori ymchwil ymhellach i lwybrau gyrfa gweithwyr fferyllol proffesiynol. | • Mecanweithiau ffurfiol yn cael eu rhoi ar waith i goladu a rhannu arfer gorau a ddatblygwyd ledled Cymru. |

# 2 Datblygu'r Gweithlu Fferylliaeth

Wrth inni geisio datblygu'r gweithlu hyd at 2030 a thu hwnt, rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae pandemig Covid-19 wedi'i chael. Ceir cydnabyddiaeth o'r straen y mae hyn wedi'i roi ar y proffesiwn, ac mae'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig wedi helpu i atgyfnerthu ac ategu ein cred graidd ym mhwysigrwydd llesiant y gweithlu. Bydd mynediad at offer llesiant a sesiynau gweithredol, ochr yn ochr â rhwydweithiau cymorth parhaus ar gyfer timau Fferylliaeth, yn greiddiol i weithlu iach a bywiog.

Wrth inni fyfyrio ar gerrig milltir ein nodau ar gyfer 2022, mae cynnydd aruthrol wedi'i wneud. Mae AaGIC, gyda chefnogaeth ac ymrwymiad y proffesiwn a chyflogwyr ar draws pob lleoliad, wedi arwain newid sylweddol i hwyluso addysg a hyfforddiant i Fferyllwyr, yn dilyn cyhoeddi'r safonau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol wedi'u diweddaru ar gyfer fferyllwyr.

Mae hyfforddiant Fferyllwyr Sylfaen wedi gweld diwygiadau mawr. O fis Awst 2022, mae pob swydd Fferyllydd Sylfaen dan Hyfforddiant ledled Cymru yn amlsector. Mae rhaglen hyfforddi fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru AaGIC, trwy weithredu cwricwlwm fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru RPS, yn darparu continwwm ymarfer ar gyfer cofrestryddion newydd yn gynnar yn eu gyrfa gan gynnwys ennill statws presgripsiynwyr annibynnol.

Sicrhawyd cyllid ychwanegol sylweddol i gefnogi lleoliadau israddedig yng Nghymru. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr wythnosau ar leoliad o fewn y radd MPharm ac yn sicrhau bod myfyrwyr fferyllol yn gallu bodloni'r safonau newydd, gydag AaGIC yn sicrhau ansawdd y lleoliadau hyn. Mae cefnogaeth ac ymrwymiad y rhwydwaith practisau fferyllol a chyflogwyr ar gyfer lleoliadau o'r fath yn hanfodol ac nid yw'n cael ei ddiystyru, gan gyfrannu'n sylweddol at hyfforddi a datblygu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Mae'r ymrwymiadau cyfunol hyn yn sicrhau mai Cymru yw'r lle i 'Hyfforddi, Gweithio a Byw'.

Bydd technegwyr fferyllol yn cael y cyfle i hyfforddi ar draws tri lleoliad fferyllol am y tro cyntaf. Mae Rhaglen Hyfforddi Technegwyr Fferylliaeth Cyn-Cofrestru prentisiaeth fodern AaGIC yn rhoi profiad amlsector i hyfforddeion, gan arwain at weithlu mwy cynaliadwy a hyblyg sy'n deall taith y claf ar draws lleoliadau gofal iechyd.

Mae bron i 30% o fferyllwyr yng Nghymru yn ragnodwyr erbyn hyn, gyda mwy yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd ac o 2026 bydd pob cofrestrai newydd yn gallu ac yn disgwyl rhagnodi fel rhan o'u hymarfer proffesiynol. Bydd technegwyr fferyllol yn parhau i gymryd mwy o gyfrifoldebau, gyda hyfforddiant a datblygiad y tîm fferyllol cyfan yn hanfodol i sicrhau'r cymysgedd sgiliau cywir er budd cleifion a'r cyhoedd.

Gyda phoblogaethau cleifion angen gofal mwy cymhleth, a ddarperir yn ddi-dor gan dimau aml-broffesiynol ar draws lleoliadau gofal, mae fferyllwyr ymgynghorol yn dod yn fwyfwy pwysig i ddarparu arweinyddiaeth yn ogystal ag uwch arbenigedd clinigol wrth ddarparu gofal a sbarduno newid ar draws y system gofal iechyd. Bydd datblygiad strategol pellach o swyddi fferyllwyr ymgynghorol yn helpu i greu'r arweiniad sydd ei angen ledled Cymru.

Bydd arweinyddiaeth yn cael ei darparu nid yn unig gan y rhai mewn swyddi uwch, ond trwy feithrin diwylliant o arweinyddiaeth sydd wedi'i gwreiddio ar bob lefel. Cefnogir ffyrdd integredig o weithio a bydd cyfleoedd hyfforddi amlddisgyblaethol yn parhau ar draws lleoliadau. Bydd diwylliant o ddysgu a chefnogi eraill yn cael ei feithrin gyda normaleiddio gwreiddio amser dysgu wedi'i ddiogelu.

Bydd arweinyddiaeth strategol ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru yn cael ei gwella ymhellach drwy wybodaeth am y gweithlu a chynllunio. Bydd addysg, ymchwil, hyfforddiant a datblygiad yn cael eu llywio a'u trawsnewid i sicrhau bod gan y proffesiwn y sgiliau angenrheidiol a'i fod yn cyd-fynd â chyflawni gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, *Cymru iachach.*



# Nod 5

Creu diwylliant gwaith deniadol lle mae arweinyddiaeth yn cael ei grymuso ar bob lefel, llesiant yn cael ei flaenoriaethu, a chefnogi ei gilydd wrth ddysgu a datblygu yn dod yn norm

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **5.1**<br>**Annog pob cyflogwr fferylliaeth i gefnogi mynediad i hyfforddiant anghlinigol, gan gynnwys cyrsiau arweinyddiaeth a sesiynau llesiant gweithredol.** | • Nifer cynyddol o aelodau tîm fferylliaeth yn cyrchu cyrsiau trwy ddarparwyr achrededig neu eu cyflogwyr. |
| **5.2**<br>**Mabwysiadu llwybr gyrfa ffurfiol ar gyfer y proffesiwn fel y'i hamlinellir gan yr RPS ac AaGIC sy'n mynd ati i annog arweinyddiaeth yn ogystal â datblygiad clinigol ac ymchwil.** | • 30% o fferyllwyr ar eu taith cymhwyster, sylfaen ôl-gofrestru, uwch neu ymgynghorol. |
| **5.3**<br>**Creu ymagwedd wedi'i alinio â 5.2 ar gyfer technegwyr fferyllol.** | • Sefydlu llwybr gyrfa ffurfiol ar gyfer technegwyr fferyllol gan gynnwys dod i gysylltiad â'r holl leoliadau fferyllol perthnasol. |
| **5.4**<br>**Sicrhau bod hyblygrwydd i hyfforddi ac amser i hyfforddi a mentora eraill yn rhan annatod o gynlluniau gwaith ac yn weithgareddau gwarchodedig.** | • Cyflogwyr fferylliaeth yn mabwysiadu egwyddorion amser dysgu wedi'i ddiogelu.<br>• Cynnydd yn nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn mentora ffurfiol. |

# Nod 6

Cynyddu'r ddealltwriaeth o arfer fferylliaeth ym mhob lleoliad ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa drwy ddull amlsector

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **6.1**<br>**Rhoi cyfleoedd i bob fferyllydd sylfaen ôl-gofrestru a thechnegydd fferyllol ddatblygu eu dealltwriaeth o bob lleoliad fferylliaeth, gan lywio eu gyrfa gynnar a darparu cymorth ar gyfer datblygu eu hymarfer uwch.** | • Modelau cydweithio dan arweiniad cyflogwyr ar gyfer fferyllwyr sylfaen a thechnegwyr fferyllol.<br>• Lleoedd fferyllwyr dan hyfforddiant i fodloni heriau gweithlu a galw cleifion. |
| **6.2**<br>**Diffinio, treialu a gweithredu gweithgareddau proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt i hwyluso'r broses gyson o drosglwyddo safonau ymarfer rhwng lleoliadau fferyllol.** | • Datblygu, treialu a gweithredu gweithgareddau proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt. |
| **6.3**<br>**Cynyddu cyfleoedd myfyrwyr fferylliaeth israddedig a thechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant i ymarfer ar draws pob lleoliad fferylliaeth.** | • Gweithredu cynllun lleoliad clinigol ar gyfer myfyrwyr fferylliaeth israddedig ar draws pob lleoliad fferylliaeth. |

# Nod 7

Gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i gleifion drwy gynyddu gallu a chysondeb sgiliau o fewn timau fferylliaeth

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **7.1**<br>**Ehangu'r gwasanaethau a ddarperir gan dechnegwyr fferyllol fel rhan o dimau amlddisgyblaethol ym mhob lleoliad.** | • Cynnwys technegwyr fferyllol mewn gwasanaethau cyfredol a newydd. |
| **7.2**<br>**Annog cymysgedd sgiliau i ddiwallu anghenion cleifion. Cyflawnir hyn drwy strategaeth recriwtio glir a gynlluniwyd i gynyddu nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ogystal ag aelodau'r tîm anghofrestredig fel sy'n ofynnol gan ragolygon cynllunio'r gweithlu. Rhaid ystyried fferylliaeth fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol ehangach yn y gwaith hwn.** | • Bydd data gweithlu ar gael ym mhob lleoliad fferylliaeth ac ym mhob ardal ledled Cymru.<br>• Bydd gan bob tîm fferylliaeth yng Nghymru gynllun i sicrhau bod technegydd fferyllol yn ei swydd erbyn 2025 gyda chyfleoedd ar gael ar gyfer technegwyr fferyllol clinigol ymarfer uwch.<br>• Sicrheir bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i holl aelodau'r tîm fferylliaeth gan gynnwys staff fferyllol anghofrestredig ar gyfer cyflawni ac ehangu eu rolau. |
| **7.3**<br>**Sicrhau bod yr holl weithwyr fferyllol proffesiynol (cyflogedig a hunangyflogedig) sydd wedi ymrwymo i weithio yng Nghymru yn cael eu cefnogi i gael mynediad at addysg a hyfforddiant a'u bod yn gallu darparu gwasanaethau cyson i gleifion yng Nghymru.** | • Mabwysiadu Siarter ar gyfer Gweithwyr Fferylliaeth Proffesiynol yng Nghymru i sicrhau ymrwymiad cyson i ymarfer fferyllol gan bob tîm fferyllol sy'n gweithio yng Nghymru. |

# Nod 8

Sefydlu rhwydwaith o fferyllwyr ymgynghorol i roi arweiniad ar feysydd blaenoriaeth clinigol yng Nghymru

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
| --- | --- |
| **8.1**<br>**Cyflwyno swyddi fferyllwyr ymgynghorol newydd i ysgogi arloesedd a gwelliannau ansawdd ar draws pob lleoliad fferylliaeth mewn ymateb i anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.** | • 25 o fferyllwyr ymgynghorol yn eu swyddi erbyn 2025 yn gweithio ar draws pob lleoliad fferylliaeth. Bydd meysydd ymarfer clinigol yn cynnwys meddygaeth gyffredinol, iechyd rhywiol, camddefnyddio sylweddau, ffarmacogenomeg, iechyd meddwl, gofal lliniarol a phoen. |
| **8.2**<br>**Sefydlu cefnogaeth i fferyllwyr sy'n dymuno bod yn fferyllwyr ymgynghorol parod trwy gymwysterau RPS.** | • Bydd 60 o fferyllwyr wedi cyflawni statws ymgynghorol parod neu'n gweithio tuag at hynny. |
| **8.3**<br>**Defnyddio arbenigedd fferyllwyr ymgynghorol ar gyfer canlyniadau cleifion ar draws pob sector a datblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch effaith fferyllwyr ymgynghorol ar ofal cleifion a'r tîm amlddisgyblaethol.** | • Meysydd o arfer gorau wedi'u nodi a'u rhannu. |

# 3 Gofal Fferyllol Di-dor

Rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn profi taith well a mwy cydlynol wrth iddynt drosglwyddo ar draws pob maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd timau fferylliaeth yn rhan annatod o ddull tîm amlddisgyblaethol, gan arwain ar feddyginiaethau wrth ryddhau a gweithio ar draws lleoliadau fferyllol.

Mae galw mawr am sgiliau fferylliaeth glinigol ledled y GIG. Mae gwybodaeth a sgiliau gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ganolog i wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau i greu canlyniadau gwell i gleifion a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i amddiffyn ein GIG.

Trwy ymchwil, datblygu ac arloesi technolegol, bydd timau fferylliaeth ar flaen y gad o ran paratoi a darparu meddyginiaethau achub bywyd mewn gwasanaethau technegol arbenigol, fel rhan o raglen GIG Cymru, Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Bydd *Presgripsiwn Newydd*[5] yn gwireddu cyfeiriad cyffrous a chyfleoedd ar gyfer fferylliaeth gymunedol. Gyda phwyslais nodedig ar ddarparu gwasanaeth clinigol o fewn cymunedau lleol a gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol a ariennir, gall timau fferylliaeth ddarparu mwy o ofal a chymorth i gleifion heb fod angen atgyfeirio.

Mae sefydlu rôl arweiniol gydweithredol fferylliaeth gymunedol wedi cynnig arweinyddiaeth a chynrychiolaeth i fferyllfeydd o fewn clystyrau gofal sylfaenol ac wedi arwain y ffordd ar gyfer mentrau cydweithredol proffesiynol eraill i ddilyn. Mae'r cydweithio effeithiol hwn gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill yn cyd-fynd â'r trawsnewid a'r weledigaeth ar gyfer clystyrau fel rhan o'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol[6], ac yn sicrhau bod gwasanaethau a ddatblygir i ddiwallu anghenion cleifion yn lleol, yn gyfleus, ac o ansawdd uchel cyson.

Mae gwasanaeth GIG 111 Cymru wedi'i gyflwyno i bob un o'r saith ardal bwrdd iechyd yng Nghymru ac mae arbenigedd fferylliaeth yn rhan annatod o'r gwasanaeth. Trwy gyrchu'r wefan neu linell gymorth benodol, mae cyngor a gwybodaeth feddygol ar gael i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gwasanaeth cywir a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r datblygiadau sylweddol hyn a gyflwynir gan y proffesiwn, yn cyd-fynd â chynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu mwy o wasanaethau yn nes at eu cartrefi, gyda phobl ond yn mynd i'r ysbyty i gael triniaeth na ellir ei darparu'n ddiogel yn rhywle arall.

Gan adeiladu ar sgiliau Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol a gwneud defnydd llawn ohonynt, bydd llwybrau atgyfeirio yn effeithlon ac yn gadarn gyda chleifion yn cael mynediad at y gwasanaeth iawn gan y gweithiwr proffesiynol iawn. Bydd llwybr atgyfeirio uniongyrchol wedi'i lunio i wasanaethau fferyllol yn cael ei sefydlu a bydd gan fferyllwyr-bresgripsiynwyr annibynnol yr offer i gychwyn ceisiadau am brofion diagnostig ac ymchwiliadau.



5. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/dyfodol-fferyllia-eth-gymunedol-yng-nghymru-presgripsiwn-newydd_0.pdf
6. gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau1/rhaglen-strategol

# Nod 9

Cynyddu mynediad cleifion at Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol, gan sicrhau bod eu arbenigedd yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar draws pob lleoliad gofal

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **9.1**<br>**Cynyddu nifer a chapasiti Ymarferyddion Presgripsiynu Dynodedig drwy sicrhau y gall pob Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol gyfrannu at daith rhagnodi annibynnol rhywun arall.** | • 25 o PIPs bob blwyddyn o bob lleoliad fferylliaeth yn ymgymryd â hyfforddiant trwy bartneriaeth RPS ac AaGIC i gynyddu hyder a gallu i ddod yn Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig. |
| **9.2**<br>**Sefydlu strwythur clir ar sut y bydd PIPs yn gweithio ar ôl graddio ym mhob lleoliad fferylliaeth, gan gynyddu mynediad ac ychwanegu gwerth at ofal cleifion.** | • Model clir wedi'i roi ar waith sy'n cynnwys cymorth gydag amser i hyfforddi a mentora. |
| **9.3**<br>**Sefydlu modelau clir ar gyfer sut y bydd gofal cleifion yn elwa o Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol a sicrhau bod pob fferyllydd mewn rolau sy'n delio â chleifion yn PIPs.** | • Modelau o arfer gorau wedi'u casglu a'u rhannu. |
| **9.4**<br>**Cefnogi mynediad mwy cyson at wasanaethau Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol cymunedol i gleifion.** | • 50% o fferyllfeydd cymunedol yn cynnig y gwasanaeth Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol am o leiaf 50% o'r amser. |

# Nod 10

Optimeiddio'r defnydd o feddyginiaethau a lleihau'r risg o niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ar gyfer gofal wedi'i amserlennu wrth i gleifion drosglwyddo rhwng lleoliadau gofal

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **10.1**<br>**Defnyddio tystiolaeth mentrau a arweinir gan dechnegwyr fferyllol i ddiwygio gwasanaethau derbyn meddyginiaethau ar gyfer gofal ysbyty wedi'i gynllunio.** | • Sefydlu enghreifftiau o arfer da. |
| **10.2**<br>**Sefydlu gwell cysylltedd a phrosesau rhwng yr ysbyty a'r gymuned wrth ryddhau er mwyn lleihau'r angen i ddosbarthu meddyginiaethau arferol, sefydledig y claf.** | • Tuedd gadarnhaol yn y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth DMR ac yn ei ddarparu. |
| **10.3**<br>**Sicrhau y gall pob ysbyty gychwyn gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau yn ddigidol ar gyfer unigolion cymwys.** | • E-lythyrau cyngor wrth ryddhau ar gael gan bob ysbyty yng Nghymru, ar gyfer pob derbyniad i'r ysbyty lle mae newidiadau i feddyginiaethau wedi'u gwneud ac ar gael drwy'r platfform Dewis Fferyllfa. |

# Nod 11

Sefydlu systemau atgyfeirio uniongyrchol rhwng gwasanaethau fferyllol, gan wella effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **11.1**<br>**Mapio llwybrau atgyfeirio presennol i benderfynu lle gellir sicrhau budd i gleifion o integreiddio gwasanaeth fferyllol.** | • Sefydlu map clir ar gyfer llwybrau atgyfeirio rhwng gwasanaethau fferyllol sefydledig. |
| **11.2**<br>**Cryfhau llwybrau llywio gofal ar lefelau clystyrau gofal sylfaenol i gynyddu cydweithredu a gofal cydgysylltiedig rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol, proffesiynau eraill, a rhwng gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol.** | • Mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn rhan o lwybrau atgyfeirio ffurfiol a phrosesau atgyfeirio ar lefelau clystyrau gofal sylfaenol. |
| **11.3**<br>**Gwella dulliau presgripsiynu cymdeithasol a chyfeirio sy'n cael eu harwain a'u cydlynu gan dechnegwyr fferyllol a'u cefnogi gan bob aelod o'r tîm fferyllol.** | • Timau fferylliaeth wedi'u cynnwys yn y llwybrau presgripsiynu cymdeithasol. |
| **11.4**<br>**Sefydlu gwasanaeth atgyfeirio diagnostig fferyllol, gyda Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol yn arwain ar geisiadau am brofion diagnostig ac ymchwiliadau.** | • O leiaf 1 peilot gwasanaeth atgyfeirio profion diagnostig fferyllol wedi'i gwblhau a'i werthuso'n llawn. |

# Nod 12

Parhau i Drawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS) i'r meddyginiaethau mwyaf arloesol ac achub bywyd gan gynnwys therapïau canser, gwrthfiotigau mewnwythiennol a maethiad parenterol i gleifion yng Nghymru

| **GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy:** | **MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys:** |
|---|---|
| **12.1**<br>**Cynllunio gweithlu cadarn sy'n buddsoddi mewn pobl i sicrhau cyflenwad o aelodau tîm fferyllol sy'n cael y cyfle i brofi a datblygu arbenigedd mewn gwasanaethau technegol.** | • Nifer y gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi dilyn hyfforddiant mewn gwasanaethau technegol. |
| **12.2**<br>**Creu cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng y GIG a phrifysgolion gan gefnogi treialon clinigol ac ymchwil i ddatblygu cynhyrchion arloesol sy'n caniatáu i feddyginiaethau gael eu rhoi yng nghartrefi pobl neu'n agosach atynt, yn hytrach nag yn yr ysbyty.** | • Nifer y prosiectau cydweithredol a gofnodwyd a'r canlyniadau a rennir ac a weithredwyd. |
| **12.3**<br>**Cydweithio agosach rhwng gwasanaethau fferylliaeth mewn ysbytai, gofal cymunedol a gofal sylfaenol i sicrhau bod cleifion yn elwa ar wasanaethau a ddarperir yn lleol ar gyfer y triniaethau mwyaf arbenigol.** | • Enghreifftiau o gydweithio wedi'u nodi a'u rhannu. |

# 4 Harneisio Arloesedd a Thechnoleg

Bydd yr angen i gofleidio, gwreiddio a defnyddio technoleg yn llawn yn cael ei wireddu, gan sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion Cymru.

Yn ystod y pandemig, rhoddwyd technoleg ar waith yn gyflym i hwyluso rhyngweithio rhwng cleifion ac ymarferwyr, gydag ymgynghoriadau fideo ar gael yn rheolaidd ar gyfer fferylliaeth mewn gofal cymunedol a sylfaenol.

Sefydlu Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol, a sefydlwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n dwyn ynghyd y rhaglenni a'r prosiectau a fydd yn sicrhau manteision dull presgripsiynu digidol llawn ym mhob lleoliad gofal yng Nghymru.

Erbyn 2026 bydd y llwyfan digidol cynhwysfawr a chadarn hwn wedi'i wreiddio, gan gysylltu gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Bydd y cynllun ar gyfer trawsnewid presgripsiynu hefyd yn sicrhau bod ystorfa data meddyginiaethau yn cael ei rhoi ar waith i gefnogi penderfyniadau clinigol a phresgripsiynu.

Bydd trosglwyddo presgripsiynau'n electronig a mynediad diogel at wybodaeth am feddyginiaeth cleifion yn cynyddu hwylustod, yn lleihau gwallau presgripsiwn ac wrth roi ac yn sicrhau cyflenwad mwy prydlon o feddyginiaethau ar bob pwynt lle caiff meddyginiaethau eu dosbarthu. Mae'r cynlluniau ar gyfer e-bresgripsiynu hefyd yn ceisio rhoi mwy o reolaeth i gleifion dros eu meddyginiaeth trwy gymwysiadau electronig.

Mae gweithredu systemau rhagnodi Electronig a Rhoi Meddyginiaethau (EPMA) wedi dechrau yn y sector a reolir yng Nghymru. Mae EPMA yn newid mawr i'r system iechyd gyda'r potensial i fod o fudd i ddiogelwch cleifion ar draws ein hysbytai, a gwella llywodraethu rhagnodi. Er y bydd yr effeithiau ar draws llawer o broffesiynau, bydd stiwardiaeth effeithiol yn cael ei harwain gan y proffesiwn fferylliaeth mewn partneriaeth ag eraill.

Bydd datrysiadau presgripsiynu electronig, awtomeiddio, a ffyrdd digidol gwell i gleifion archebu meddyginiaethau arferol yn cael eu gwreiddio mewn ymarfer, gan greu effeithlonrwydd o fewn gwasanaethau ac amser i dimau fferylliaeth i ffwrdd o dasgau gweinyddol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae datblygiadau mewn therapiwteg yn parhau'n gyflym ac mae hyn yn cynnwys

cynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch yn ogystal â meddygaeth fanwl. Bydd fferyllwyr yn chwarae rhan flaenllaw wrth symud y chwyldro ffarmacogenomeg yn ei flaen, gan ganiatáu dull personol o bresgripsiynu a thrawsnewid canlyniadau cleifion. O arweinyddiaeth system i weithredu gwasanaethau, gall fferyllwyr deilwra a phersonoli presgripsiynu meddyginiaethau yn seiliedig ar wybodaeth enetig.

Mae ffarmacogenomeg eisoes o fudd i gleifion yng Nghymru, er enghraifft, wrth sgrinio'n rheolaidd yr holl gleifion canser sy'n gymwys i gael triniaeth â chemotherapi penodol (yn seiliedig ar fflwooropyrimidin). Mae'r profion yn nodi'r risg o brofi sgîl-effeithiau difrifol a galluogi addasiadau priodol i'r dos neu ddewis cyffuriau i wella diogelwch cleifion.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos cyfleoedd amrywiol i fferyllwyr mewn ffarmacogenomeg ar draws pob lleoliad fferylliaeth. Mae'r manteision posibl i gleifion yn enfawr ac yn cynnwys llai o niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth, gan sicrhau eu bod yn cael y driniaeth fwyaf addas o'r cychwyn, gydag ymateb therapiwtig cynt a gwell.

Trwy rannu arferion arloesol a gorau sy'n cyd-fynd â strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru i Gymru, gwneir y gorau o'r buddion i gleifion a'r canlyniadau iechyd.



# Nod 13

Gweithredu datrysiadau rhagnodi electronig ar draws pob lleoliad fferylliaeth, gan gynnwys cefnogi cleifion i gael mynediad at wasanaethau fferyllol trwy ap GIG Cymru

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| 13.1<br>**Cyfrannu at ddatblygu'r rhaglenni canlynol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y systemau a adeiladwyd yn addas i'r diben:**<br>• Rhaglen bresgripsiynu a rhoi meddyginiaethau electronig Gofal Eilaidd (ePMA).<br>• Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig Gofal Sylfaenol (EPS)<br>• Prosiect Rhannu Cofnod Meddyginiaethau<br>• Rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd h.y. Ap GIG Cymru. | • Mae fferyllfeydd cymunedol yn gallu derbyn presgripsiynau electronig gan bractisau meddygon teulu.<br>• Mae systemau presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau electronig yn cael eu defnyddio mewn ysbytai ledled Cymru.<br>• Mae Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferylliaeth yn gallu cael mynediad at gofnodion meddyginiaeth cleifion mewn systemau gofal sylfaenol ac eilaidd.<br>• Mae cleifion yn gallu cael mynediad at eu cofnodion meddyginiaethau trwy ap GIG Cymru, sydd hefyd yn darparu swyddogaeth i gefnogi cadw at feddyginiaeth. |
| 13.2<br>**Ymgysylltu â DHCW i ddarparu hyfforddiant i dimau fferylliaeth i'w helpu i gefnogi cleifion i ddefnyddio ap GIG Cymru.** | • Creu cyfres o ddeunyddiau sy'n dangos sut mae'r ap yn gweithio. |

# Nod 14

Adroddir am ddigwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth a gweithredir arnynt i wella diogelwch cleifion

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| **14.1**<br>**Gwella ansawdd gofal fferyllol drwy wella'r diwylliant o ddidwylledd, tryloywder a gonestrwydd o fewn y proffesiwn fferyllol yng Nghymru drwy well adrodd a dysgu o gamgymeriadau meddyginiaeth ym mhob sector.** | • Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth ar draws yr holl leoliadau gofal yn cael eu hadrodd i gadwrfa ganolog. |
| **14.2**<br>**Parhau i nodi'r digwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaethau yr adroddir amdanynt amlaf.** | • Camau yn cael eu cymryd i wella canlyniadau ar y digwyddiadau yr adroddir amdanynt amlaf, gan rannu'r hyn a ddysgwyd ledled Cymru i atal digwyddiadau o'r fath. |
| **14.3**<br>**Lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau mewn ysbytai drwy leihau'r nifer o feddyginiaethau risg uchel sy'n cael eu paratoi ar wardiau.** | • Defnyddio paratoadau parod i weinyddu a gynhyrchwyd gan uned gwasanaeth ychwanegion mewnwythiennol canolog ledled Cymru. |
| **14.4**<br>**Datblygu cynllun meddyginiaethau a diogelwch cleifion rhagweithiol trwy'r Rhwydwaith Swyddogion Diogelwch Meddyginiaethau.** | • Cynllun wedi'i ddatblygu ac yn ei le ledled Cymru. |

# Nod 15

Cynyddu'r gallu i weithwyr fferyllol proffesiynol wario ar weithgaredd sy'n ymwneud â chleifion drwy gyflwyno arbedion effeithlonrwydd wrth ddosbarthu meddyginiaethau

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
| --- | --- |
| **15.1**<br>**Rhoi modelau newydd ar waith sy'n lleihau'r amser a dreulir ar ddosbarthu gweithgareddau mewn lleoliadau fferylliaeth.** | • Cynnydd yn nifer y fferyllfeydd cymunedolsy'n derbyn presgripsiynau 56 diwrnod neu fwy neu bresgripsiynau swp.<br>• System ddosbarthu gwbl Awtomataidd o fewn ysbyty wedi'i threialu mewn un ardal bwrdd iechyd. |
| **15.2**<br>**Implementing digital systems to help prioritise patients that will benefit most from input from the pharmacy team.** | • Gweithredu systemau sy'n helpu i flaenoriaethu cleifion sydd angen yr arbenigedd mwyaf mewn meddyginiaethau e.e. amlygu meddyginiaethau cymhleth sydd angen dos wedi'i gyfrifo / mynegai therapiwtig cul / monitro ychwanegol. |
| **15.3**<br>**Cefnogi cleifion i archebu eu meddyginiaeth trwy apiau digidol a thechnolegau arloesol i gynyddu hyblygrwydd a grymuso cleifion i gymryd mwy o reolaeth dros eu cyflenwad meddyginiaethau arferol.** | • Mesur nifer y cleifion sy'n archebu meddyginiaethau drwy ap GIG Cymru. |

# Nod 16

Gwreiddio elfennau o gynllun genomig meddyginiaethau mewn ymarfer fferyllol

| GWEITHGAREDD: Byddwn yn cyflawni hyn trwy: | MESUR: Gall enghreifftiau gynnwys: |
|---|---|
| 16.1<br>**Sefydlu gwasanaeth panel ffarmacogenomig y cytunwyd arno ledled Cymru.** | • Gwasanaeth wedi'i gytuno a'i sefydlu ar draws lleoliadau fferyllol. |
| 16.2<br>**Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth genomig yn ymwneud â meddyginiaethau ar gyfer y tîm fferylliaeth sy'n berthnasol i'w hymarfer.** | • 20% o'r gweithlu fferylliaeth wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol am hanfodion ffarmacogenomeg e.e. mynychu gweminarau RPS / AaGIC. |
| 16.3<br>**Gwreiddio fframwaith cymhwysedd ar gyfer genomeg mewn ymarfer fferylliaeth.** | • Fframwaith ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan rwydwaith hyrwyddwyr genomig fferyllol. |
| 16.4<br>**Ysgogi newid gwasanaeth drwy sefydlu strwythur gweithlu a all hyrwyddo rôl fferylliaeth mewn genomeg.** | • Fferyllydd ymgynghorol mewn genomeg wedi ei benodi i gynghori ar ymarfer ac arwain gwelliant ansawdd ar lefelau lleol a chenedlaethol.<br>• Creu rolau hyrwyddwyr genomeg fferylliaeth ledled Cymru. |